## CYMUNED TRE-BIWT

**Cynigion Drafft**
Ar ôl adolygu'r cyflwyniadau sy'n effeithio ar y gymuned, cynigiwyd newidiadau fel a ganlyn:

- **CR007 - Creu cymuned newydd Bae Caerdydd.**
  - Creu cymuned newydd "Bae Caerdydd" wedi'i lleoli'n bennaf i'r de o'r A4232 o Afon Elái at yr Heliport.
  - Bydd y gymuned newydd yn rhychwantu cymunedau presennol Tre-biwt a Grangetown.
  - Darparwyd map(iau) o ardal y cynnig.

**Adolygiad o'r Cyflwyniad: CR007 – Creu cymuned newydd Bae Caerdydd.**
Cafwyd dau gyflwyniad yn cynnig creu cymuned newydd i ardal Glanfa Iwerydd yng nghymuned Tre-biwt. Seiliwyd y cynigion hyn ar raniad corfforol rheilffordd Bae Caerdydd /Rhodfa Lloyd George a wahanai'r gymuned draddodiadol oddi wrth y datblygiadau diweddarach yn ardaloedd Bae Caerdydd a Glanfa Iwerydd.

Wedi adolygu'r cynigion nodwyd bod datblygiadau cymunedol arwyddocaol tuag at integreiddio a sicrhau cydweithrediad rhwng trigolion yr 'hen' Dre-biwt ac ardal Glanfa Iwerydd. Cynigir felly y dylid cadw'r ardal i'r gogledd o'r A4232 yn un gymuned.
Nododd yr adolygiad fod y datblygiadau newydd i'r de o'r A4232 yn gymuned unfath ar wahân; barn a ategwyd gan ddatblygiad preswyl newydd sylweddol o dros 1,000 o dai newydd o fewn ardal Bae Caerdydd. Cynigir felly y dylid creu cymuned newydd i adlewyrchu'r ardaloedd daearyddol gwahanol i'r de a'r gogledd o'r A4232.

Felly cynigir creu cymuned newydd Bae Caerdydd.

**Cyflwyniadau a Wrthodwyd**
**1) Adolygiad o'r Cyflwyniad: Cais am beidio newid dim**
Cafwyd un cyflwyniad yn datgan na ddylid gwneud unrhyw newidiadau gan fod y ffiniau cyfredol yn foddhaol. Gan fod achosion rhesymol wedi'u dadlau dros newid, ni weithredir y cynnig 'dim newid' hwn.

## CYMUNED GRANGETOWN

**Cynigion Drafft**
Ar ôl adolygu'r cyflwyniadau sy'n effeithio ar y gymuned, cynigiwyd newidiadau fel a ganlyn:

- **CR007 - Creu cymuned newydd Bae Caerdydd.**
    - Creu cymuned newydd "Bae Caerdydd" wedi'i lleoli'n bennaf i'r de o'r A4232 o Afon Elái at yr Heliport.
    - Bydd y gymuned newydd yn rhychwantu cymunedau presennol Tre-biwt a Grangetown.
    - Darparwyd map(iau) o ardal y cynnig.

- **CR008 – Creu cymuned newydd Lecwydd**
    - Cymuned newydd wedi'i lleoli i'r gorllewin o'r brif reilffordd a lein Penarth/y Barri.
    - Bydd y gymuned newydd yn rhychwantu cymunedau presennol Grangetown a Threganna.
    - Darparwyd map(iau) o ardal y cynnig.

**Adolygiad o'r Cyflwyniad: CR007 – Creu cymuned newydd Bae Caerdydd.**
Gweler adolygiad cyflwyniad Cymuned Tre-biwt CR007 am fanylion pellach.

**Adolygiad o'r Cyflwyniad: CR008 – Creu cymuned newydd Lecwydd**
Cafwyd tri chais am greu cymuned newydd "Lecwydd" sy'n rhychwantu ffiniau cymunedau presennol Treganna a Grangetown. Seiliwyd y cyflwyniadau hyn ar raniad corfforol y rheilffyrdd a phriffyrdd yr A4232 a'r B4267.
Ar ôl adolygu'r cynigion, penderfynwyd bod y cyfryw reilffyrdd a phriffyrdd yn creu rhaniad i bob pwrpas rhwng yr ardal hon a gweddill Treganna a Grangetown. Felly argymhellwyd creu cymuned newydd Lecwydd i adlewyrchu'r ardal ddaearyddol arwahanol hon.

**Cyflwyniadau a Wrthodwyd**
**1) Adolygiad o'r Cyflwyniad: Rhannu Grangetown yn 3 cymuned**
Cafwyd un cyflwyniad yn awgrymu y dylid rhannu Grangetown yn gymunedau lluosog. Er bod cynnig drafft yn cael ei gyflwyno ynglŷn ag ardal "Lecwydd", o adolygu sefyllfa gweddill Grangetown ni chanfuwyd achos digonol i awgrymu mai'r peth gorau i gymuned Grangetown fyddai rhannu gweddill Grangetown yn 2 gymuned. Ni theimlid fod dau grŵp arwahanol yn weddill yn y gymuned ac nid oedd ffiniau corfforol yn bodoli a fyddai'n rhannu'r gymuned weddilliol.

## CYMUNED LLANRHYMNI

**Cynigion Drafft**
Ar ôl adolygu'r cyflwyniadau sy'n effeithio ar y gymuned, cynigiwyd newidiadau fel a ganlyn:

- **CR009 – Newid Ffiniau Llanrhymni/Tredelerch. Newid adrannau etholiadol cyfatebol Cyngor Caerdydd yn sgîl hynny.**
    - Adleoli cyfanswm o 37 eiddo yn Heol Casnewydd o Lanrhymni i Dredelerch i sicrhau bod eiddo nesaf at ei gilydd ar yr un ochr i'r stryd wedi'u cynrychioli yn yr un gymuned.
    - Darparwyd map(iau) o ardal y cynnig.

**Adolygiad o'r Cyflwyniad: CR009 - Newid Ffiniau Llanrhymni/Tredelerch.**
Cafwyd un cyflwyniad yn gofyn am newid ffin i gywiro anghysonder sy'n gosod eiddo sydd nesaf at ei gilydd ar yr un ochr i Heol Casnewydd mewn gwahanol gymunedau fel bod y trigolion yn pleidleisio mewn gwahanol ganolfannau.
Wedi adolygu'r sefyllfa cytunwyd y byddai cynrychiolaeth etholiadol yn well o newid ffin y gymuned fel bod pob eiddo odrif rhwng Rumney Hill Gardens a thafarn yr Old Cross wedi'u cynrychioli gan un gymuned, sef Tredelerch.
Bydd y cynnig hwn yn effeithio ar 37 eiddo, a 62 o etholwyr ar hyn o bryd. Mae'n effeithio ar bob eiddo odrif rhwng 693 Heol Casnewydd a thafarn yr Old Cross ar Heol Casnewydd.

**Cyflwyniadau a Wrthodwyd**
**1) Adolygiad o'r Cyflwyniad: Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg (Newid Cymuned)**
Cafwyd un cyflwyniad yn gofyn am i'r ysgol uchod newid cymuned o Lanrhymni i Bentref Llaneirwg, gan fod disgyblion o Bentref Llaneirwg yn cael blaenoriaeth ar gyfer mynychu'r ysgol hon. Gwrthodwyd y cais hwn gan nad yw ffiniau derbyn ysgolion ledled Caerdydd ddim yr un fath â ffiniau etholiadol Cymunedol na Sirol. Ar ben hynny, mae'r ysgol wedi hen ennill ei phlwyf yn yr ardal fel yr orsaf bleidleisio i bleidleiswyr Llanrhymni.

## CYMUNED TREDELERCH

### Cynigion Drafft

Ar ôl adolygu'r cyflwyniadau sy'n effeithio ar y gymuned, cynigiwyd newidiadau fel a ganlyn:

- **CR009 – Newid Ffiniau Llanrhymni/Tredelerch. Newid adrannau etholiadol cyfatebol Cyngor Caerdydd yn sgîl hynny.**
    - Adleoli cyfanswm o 37 eiddo yn Heol Casnewydd o Lanrhymni i Dredelerch i sicrhau bod eiddo nesaf at ei gilydd ar yr un ochr i'r stryd wedi'u cynrychioli yn yr un gymuned.
    - Darparwyd map(iau) o ardal y cynnig.

- **CR010 – Newid Ffiniau Trowbridge/Tredelerch. Newid adrannau etholiadol cyfatebol Cyngor Caerdydd yn sgîl hynny.**
    - Symud y ffin o amgylch Westbourne Court, Pwllmawr Court a The Avenue fel bod yr eiddo hyn yn symud o Trowbridge i Dredelerch.
    - Darparwyd map(iau) o ardal y cynnig.

**Adolygiad o'r Cyflwyniad: CR009 - Newid Ffiniau Llanrhymni/Tredelerch.**
Gweler adolygiad cyflwyniad Cymuned Llanrhymni CR009 am fanylion pellach.

**Adolygiad o'r Cyflwyniad: CR010 – Newid Ffiniau Trowbridge/Tredelerch.**
Gweler adolygiad cyflwyniad Cymuned Trowbridge CR010 am fanylion pellach.

### Cyflwyniadau a Wrthodwyd

1) Ni wrthodwyd dim.

## CYMUNED Y SBLOT

**Cynigion Drafft**
Ar ôl adolygu'r cyflwyniadau sy'n effeithio ar y gymuned, cynigiwyd newidiadau fel a ganlyn:

**CR013 – Y Sblot. Creu cymuned newydd "Tremorfa".**

- Creu cymuned newydd wedi'i ffinio gan Afon Rhymni, prif reilffordd de Cymru, rheilffordd gangen y Sblot a ffiniau cyfredol y Sblot.
- Darparwyd map(iau) o ardal y cynnig.

**Adolygiad o'r Cyflwyniad: CR013 – Y Sblot. Creu cymuned newydd "Tremorfa".**
Cafwyd un cyflwyniad yn gofyn am hollti cymuned bresennol y Sblot yn ddwy a chreu cymuned newydd "Tremorfa". Byddai ffiniau hon yn seiliedig ar Afon Rhymni, prif reilffordd de Cymru, rheilffordd gangen y Sblot a ffiniau cyfredol y Sblot.
Ar ôl adolygu'r cynnig, penderfynwyd fod y cyfryw reilffyrdd a'r afon yn ffiniau effeithiol sy'n gwahanu'r ardal hon oddi wrth weddill y Sblot. Felly argymhellwyd creu cymuned newydd Tremorfa i adlewyrchu'r ardal ddaearyddol neilltuol hon.

**Cyflwyniadau a Wrthodwyd**
1) Ni wrthodwyd dim.

## CYMUNED TROWBRIDGE

**Cynigion Drafft**
Ar ôl adolygu'r cyflwyniadau sy'n effeithio ar y gymuned, cynigiwyd newidiadau fel a ganlyn:

- **CR010 – Newid Ffiniau Trowbridge/Tredelerch. Newid adrannau etholiadol cyfatebol Cyngor Caerdydd yn sgîl hynny.**
  - Symud y ffin o amgylch Westbourne Court, Pwllmawr Court a The Avenue fel bod yr eiddo hyn yn symud o Trowbridge i Dredelerch.
  - Darparwyd map(iau) o ardal y cynnig.

**Adolygiad o'r Cyflwyniad: CR010 – Newid Ffiniau Trowbridge/Tredelerch.**
Cafwyd dau gyflwyniad yn ymwneud ag anghysonder ffiniau Westbourne Court, Pwllmawr Cottages, Pwllmawr Court a The Avenue. Wedi ymchwilio i'r sefyllfa teimlwyd nad yw'r eiddo hyn yn rhan o Trowbridge gan eu bod wedi'u hynysu oddi wrth Trowbridge gan stadau masnachol a'u bod eisoes yn pleidleisio yn Nhredelerch, yn y Neuadd Goffa. Cynigir felly y dylai 33 eiddo, ynghyd â'r 50 o etholwyr sydd yno ar hyn o bryd, newid i fod yn rhan o gymuned Tredelerch.

**Cyflwyniadau a Wrthodwyd**
**1) Adolygiad o'r Cyflwyniad: Newid Ffiniau Trowbridge/Tredelerch**
Cafwyd dau gyflwyniad yn ymwneud â rhan ddeheuol cymuned Trowbridge a'r ffaith ei bod wedi'i hynysu oddi wrth Trowbridge. Sail y cynigion hyn oedd nad oedd cysylltiad ffordd uniongyrchol rhwng y rhan o Trowbridge islaw'r brif reilffordd a phrif ardal Trowbridge. O adolygu'r sefyllfa canfuwyd er bod y rheilffordd yn rhannu'r gymuned ar hyn o bryd, nad yw'r cyflwyniadau hyn yn effeithio ar drefniadau pleidleisio cyfredol y cymunedau ac, yn wahanol i'r eiddo yng nghynnig CR010, y bydd yr eiddo hyn yn dal i fod wedi'u gwahanu'n gorfforol oddi wrth y rhan fwyaf o Dredelerch gan y rheilffordd. Teimlid hefyd y byddai gweithredu'r cynigion hyn yn andwyol i weinyddiad effeithiol y Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig o fewn yr ardal dan sylw.